# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DYDD MAWRTH, 11EG

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Andrews, A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D. Havard, M.P. James, Mrs B. Miles, Mrs T. Parry, J. Roberts, R. Saralis a R. Whiting.

Ar y cyd gyda:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Prif Swyddog Cyllid), Sarah Ellis, (Rheolwraig Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), H. West (Rheolwraig Tîm - Gwasanaethau Cynhwysiad), J. Southcombe (Rheolwraig Gwasanaethau Ariannol - Addysg), C. Forbes-Thompson (Interim Head of Democratic Services), T. Rawson (Cyfreithiwr), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Aelodau Cyfetholedig: Mr R. Morgan (Rhiant Lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon), M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archdiocesaidd Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J. Bevan, P.J Bevan, D. Hardacre, Mrs G. Oliver, Mr M. Barry (Rhiant Lywodraethwr).

**2. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jenkins, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Cwm Rhymni i Gyfarfod y Pwyllgor Craffu.

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar y dechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 4. COFNODION – 7FED MEHEFIN 2017

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2017 (rhifau cofnodion 1-11) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Dywedodd y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad) i'r Pwyllgor Craffu am ei phresenoldeb, ynghyd â'r Dirprwy Arweinydd a'r Maer, yn nigwyddiad cerddoriaeth Gwent Vibe ac roedd yn falch o gyflwyno gwobrau i 3 o ddysgwyr Caerffili.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet a'r Pwyllgor adborth cadarnhaol am yr ymweliad a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Islwyn, gan nodi bod yr ysgol yn adnodd ardderchog ac yn arbennig, roedd yr Aelodau'n falch o nodi diffyg tagfeydd yn yr ysgol, o ganlyniad i'r system reoli traffig sydd yn ei lle, lle gofynnir i rieni sy'n casglu mewn car, i gasglu disgyblion 10 munud ar ôl diwedd y diwrnod ysgol a gallant yrru i'r adeilad.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed yn unol â blaenoriaeth y Fforwm Ieuenctid ar gyfer Iechyd Meddwl. Esboniodd swyddogion bod y maes hwn bellach dan ofal y tîm Ysgolion Iach. Nodwyd y gall nifer o feysydd megis Camddefnyddio Sylweddau gael effaith ar Iechyd Meddwl ac mae'n bryder cynyddol ar draws y fwrdeistref. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gasglu gwybodaeth gan ysgolion, yr heddlu a'r sector wirfoddol ac mae angen ymateb mwy brys yn y maes hwn.

Yn dilyn y diweddariad, cytunodd y Pwyllgor Craffu fod yr Aelod Cabinet yn darparu cylchlythyr i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am ei hadroddiad.

## 7. RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yr adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes drafft o fis Mehefin 2017 hyd at fis Gorffennaf 2017.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ar 17eg Gorffennaf, lle gofynnir i'r Aelodau ystyried eitemau ar gyfer y Rhaglen Waith i'r Dyfodol am y 12 mis nesaf, ond gwahoddwyd yr Aelodau i e-bostio unrhyw awgrymiadau neu sylwadau i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd cyn y gweithdy, pe baent yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> Penderfynwyd y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith a atodir i'r adroddiad yn amodol ar unrhyw newidiadau a wnaed yn y gweithdy

## 8. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd adroddiad y Cabinet a restrir ar yr agenda ei alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 9. DIOGELU

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Diogelu mewn Addysg.

Nodwyd bod Diogelu yn flaenoriaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth ac mae wedi parhau i fod yn sail i bob gweithgaredd ym mhob cynllun allweddol. Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn gweithio gyda Gwasanaethau Plant, ysgolion, rhieni, Consortiwm De Ddwyrain Cymru (CDDC), y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg a phartneriaid eraill i sicrhau bod ymagwedd gadarn tuag at drefniadau diogelu.

Mae gan yr ALl rôl ganolog mewn gweithgareddau diogelu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae hyn yn sicrhau bod polisi ac ymarfer yn hyddysg iawn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae gan bob ysgol a lleoliad Person Hŷn Dynodedig (PHD) ar gyfer Amddiffyn Plant.

Yn ogystal â darparu cyngor a chymorth da, mae yna raglenni diogelu effeithiol yn ymwneud â hyfforddiant, fforymau ymarferwyr ac archwiliad. Mae adroddiadau arolygu ysgolion Estyn yn nodi bod yna bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol mewn ysgolion yng Nghaerffili.
Mae trefniadau monitro cadarn ar waith mewn perthynas â chraffu ar ffurflenni ymyrraeth gorfforol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ALl yn arfer ei ddyletswydd gofal mewn perthynas â disgyblion ac aelodau staff. Mae craffu ar y data yn dangos bod tuedd i lawr wedi bod yn nifer yr achosion o ymyrraeth gorfforol mewn ysgolion a chanolfannau adnoddau arbenigol ers 2011/12.

Mae systemau cadarn ar waith ynglŷn â chofnodi a monitro digwyddiadau gwahaniaethol. Diweddarir y canllawiau i adlewyrchu unrhyw gategorïau newydd wrth iddynt gael eu diffinio. Mae Stonewall wedi cydnabod bod yr ALl yn datblygu arferion da yn y maes hwn.

Croesawodd y Pwyllgor Craffu Mr Jenkins, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Cwm Rhymni, a roddodd gyflwyniad ar Ddiogelu a Sut mae Ysgolion yn Cadw Plant yn Ddiogel.

Nododd yr Aelodau bod nifer o bolisïau ar waith er mwyn Diogelu plant, sy'n cynnwys Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015 a Pholisi Corfforaethol Caerffili. O fewn pob ysgol, mae Swyddogion Diogelu dynodedig sydd wedi derbyn hyfforddiant uwch Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru. Yn ogystal, mae pob aelod o staff o fewn ysgolion yn cael hyfforddiant achrededig bob 3 blynedd ar faterion cyfredol ac sy'n dod i'r amlwg.

O fewn CBS Caerffili mae systemau ar waith i sicrhau bod pob ysgol yn cael ei harchwilio a'i chefnogi gan y Tîm Diogelu Addysg, bod Ffeiliau Cofnodion Diogelu Unigol yn cael eu diweddaru a bod cadw a throsglwyddo Cofnodion Diogelu yn hollbwysig pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. Yn ychwanegol, mabwysiadwyd dull amlasiantaethol ar gyfer ymgynghori ag asesiadau risg a chynadleddau.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod Cyfathrebu yn ffactor pwysig iawn o ran Diogelu. Mae staff yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar sail 'angen gwybod', er mwyn osgoi achosion o dorri Diogelu Data. Defnyddir ffynonellau cyfathrebu fel e-bost yn effeithiol a sefydlwyd cysylltiadau agos gydag asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol), yr Heddlu, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac Iechyd ac mae digwyddiadau dewisol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod Lleol.

Diolchodd y Pwyllgor i Mr Jenkins am ei gyflwyniad a gwahoddodd H. West (Rheolwr Tîm -

Gwasanaethau Cynhwysiad) i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod Diogelu yn cael ei gefnogi'n dda iawn ar Lefel Gorfforaethol, yn cael digon o adnoddau a bod Caerffili wedi cael ei chydnabod am arferion gorau. Esboniodd swyddogion, wrth i dechnoleg symud yn ei blaen a chyda'r cynnydd yn y defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol, fod seiber-fwlio yn fater go iawn ac o ganlyniad, mae angen i staff gael hyfforddiant digonol er mwyn delio â'r amgylchedd newidiol hwn. Bellach, mae pob Aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn ysgol ac mae prosesau ar waith gydag asiantaethau i sicrhau bod staff asiantaeth hefyd wedi'u hyfforddi. Yn ogystal, nododd yr Aelodau fod hyfforddiant Diogelu hefyd yn cael ei ddarparu i'r Hebryngwyr Ysgol, oherwydd ar ôl trafodaeth gyda myfyrwyr, penderfynwyd bod disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â'r "ddynes lolipop" petai ganddynt unrhyw bryderon.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y System Archwilio sydd ar waith ar hyn o bryd. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod staff, yn dilyn adolygiad achos difrifol, wedi mynychu ysgol leol i gasglu gwybodaeth berthnasol a darganfuant ddiffyg mewn rheoli ffeiliau a chofnodi a storio gwybodaeth yn gywir. As a result, the whole system was reviewed, information stored accurately, and relevant information shared where necessary. Yn dilyn hyn, datblygwyd polisi gyda chanllawiau clir i gynorthwyo ysgolion i storio a rheoli'r wybodaeth disgyblion sydd ganddyn nhw yn gywir, a chynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau y cedwir at hyn.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am nifer y datgeliadau a wnaed ac a fu cynnydd neu a oedd tueddiadau yn cael eu cydnabod. Esboniodd swyddogion nad yw data yn cael eu casglu ar ddatgeliadau. Mae nifer o weithdrefnau ar waith er mwyn darparu plant â mannau diogel yn yr amgylchedd dysgu ac annog disgyblion i deimlo'n gyfforddus i ddatgelu unrhyw faterion neu bryderon gyda'r staff a bod mesurau priodol ar waith i gynorthwyo disgyblion a delio'n briodol â'r mater.

Trafododd yr Aelodau heriau a nodwyd bod nifer o heriau o fewn Diogelu, sy'n cynnwys dibyniaeth gynyddol ar TG, ar gyfer risgiau wrth gefn, diogelu data a seiber-fwlio. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith er mwyn rhoi arweiniad i ysgolion ar Ddiogelu, ond mae hyfforddiant yn elfen allweddol o sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r prosesau, yn ogystal, nododd yr Aelodau bwysigrwydd o Lywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant Diogelu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo:

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

(i) i nodi'r adroddiad;

(ii) dylid darparu Adroddiad Diogelu blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Addysg er gwybodaeth.

## 10. CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER ADDYSG A DYSGU GYDOL OES 2017/18

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer 2017/18 a sut y dyrannwyd cyfanswm cyllideb y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Setliad Ariannol Llywodraeth Leol terfynol 2017/18 a gyhoeddwyd ar 21ain Rhagfyr 2016 yn dangos cynnydd yn y Gronfa Gyfunol Allanol o £0.326m (0.12%) ar gyfer CBS Caerffili. Er bod yr Setliad Terfynol wedi arwain at gynnydd mewn arian parod ar gyfer CBS Caerffili, ar ôl addasu ar gyfer cyfrifoldebau newydd a grantiau a drosglwyddir i mewn ac allan o'r setliad, mae'r sefyllfa newydd yn gostyngiad ariannol effeithiol o £0.342m.

O ganlyniad i'r setliad ariannol, cytunwyd ar becyn o gynilion o £9.046m i alluogi'r Cyngor i

ddarparu cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 ac yn rhannol i gynorthwyo i gyflawni cyllideb gytbwys yn 2017/18. Fel rhan o'r £9.046m, roedd yr arbedion penodol ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes yn £867k.

Mae cyllideb gymeradwy 2017/18 ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cyfateb i £125m.

Fel rhan o broses cyllideb yr Awdurdod, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi rhoi codiad cyllidebol o 1.2% (cyfartaledd pwysol) ar gyfer costau dyfarnu cyflog posibl, ynghyd â chynnydd ar gyfer y cyflog byw a chynnydd o 1.6% ar gyfer chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl. Yn ogystal, rhoddwyd codiad cyllidebol hefyd i ariannu'r Ardoll Brentisiaeth o 0.5% ar gostau cyflogres (a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU o fis Ebrill 2017) a thaliad Gwyliau Ychwanegol ar gyfer staff sy'n gweithio oriau amrywiol. Ni chynhwysir Athrawon a staff eraill yn yr ysgol yn y codiadau hyn. Yn ogystal, dyrannwyd 1.25% o dwf cyllidebol i Ysgolion (£1.334m). Bydd angen i'r Cyllidebau Ysgolion Unigol (£ 99m a ddirprwyir yn uniongyrchol drwy'r fformiwla a £4m grant Ôl-16 a grant cymorth refeniw a ariennir) ariannu unrhyw gyflog, pris a phwysau eraill sy'n gysylltiedig â thwf o fewn y gyllideb gyfyngedig.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer Ysgolion wedi'i ddiweddaru wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad i'r Cyngor. Mae'r diweddariad hwn yn tybio y bydd ysgolion yn derbyn codiad blynyddol mewn cyllid o 1.25%, ond bydd hyn yn destun adolygiad wrth i ofynion arbedion gael eu cadarnhau. Ar hyn o bryd mae diffyg o 0.28% ar gyfer 2017/18, 0.35% ar gyfer 2018/19, 0.48% ar gyfer 2019/20, 035% ar gyfer 2020/21 a 0.47% ar gyfer 2021/22.

Yn gyfan gwbl, mae cyllideb net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2017/18 yn £125m (ac eithrio Dosraniadau Gwasanaeth Cefnogi Canolog), y mae £103m (sy'n cynnwys £4 miliwn o gyllid Ôl-16) yn ffurfio'r Cyllidebau Ysgolion Unigol.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad ac aeth y drafodaeth ymlaen.

Wrth nodi'r adroddiad, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am yr arbedion dim effaith o £867k. Esboniodd swyddogion fod yr arbedion hyn wedi'u cyflawni drwy ailstrwythuro a newidiadau i'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n gweithio; rheoli swyddi gwag, drwy beidio â disodli staff mewn rhai swyddi gwag mewn meysydd fel gweinyddiaeth a gwasanaethau llyfrgelloedd; lleihau dyraniadau cyllideb a gostyngiadau a gyflawnir gan y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg. Fe'i cadarnhawyd mai'r term "dim effaith" yw ymadrodd corfforaethol sy'n berthnasol i gynilion sydd â dim effaith ar y cyhoedd.

Trafododd yr Aelodau bwysau cyllidebol gan Addysg y tu Allan i'r Ysgol, sydd wedi dangos gorwariant a gofynnodd am ragor o wybodaeth ynghylch sut y gellir darparu'r rhain yn y dyfodol. Sicrhawyd yr Aelodau bod y gorwariant penodol hwn yn un unwaith fel buddsoddiad mewn darpariaeth i leihau'r arian sy'n mynd yn ei flaen. Mae'r costau cyllidebol hyn yn cyfeirio at ddarpariaeth y tu allan i'r sir ar gyfer plant ag anghenion penodol na ellir ei darparu y tu mewn i'r fwrdeistref, mae gwaith ar y gweill i ddarparu ymyrraeth gynharach lle bo modd er mwyn lleihau'r ymrwymiad hirdymor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad
yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

**11. EDUCATION & LIFELONG LEARNING GRANTS 2017-18**

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Aelodau am y cyllid grant sydd ar gael i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2017-18.

Manylodd yr adroddiad y cyllid grant sydd ar gael ar hyn o bryd, fodd bynnag, nodwyd y gellid darparu grantiau pellach yn ystod y flwyddyn, yn amodol ar ffynonellau cyllid newydd neu ganlyniad llwyddiannus bidiau.

Rhoddodd yr adroddiad ddisgrifiad cryno o bwrpas y cyllid grant a amlinellwyd manylion pellach yn yr atodiad i'r adroddiad.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad ac aeth y drafodaeth ymlaen.

Ar ôl ystyried yr atodiad yn fanwl, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am newidiadau sylweddol o fewn y Cyllid Grant a dderbyniwyd. Amlinellodd y swyddogion fod lefelau cyffredinol y grantiau a dderbyniwyd ar gyfer 2017/18 wedi aros yn sefydlog, gyda'r newid mwyaf arwyddocaol yn y gostyngiad yng Ngyllid Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei wrthbwyso gan Grant Gweithredydd Cynnar Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant, a dderbyniwyd. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod gan lawer o'r grantiau amodau a thelerau ynghlwm a gallant fod yn ddarostyngedig i gyllid gael ei "ad-dalu'n ôl" pe na bai arian yn cael ei ddefnyddio na thelerau ac amodau na chânt eu cadw atynt.

Cynhaliwyd trafodaeth bellach o gwmpas Grant Gweithredydd Cynnar y Cynnig Gofal Plant, sy'n darparu cyllid i alluogi'r Awdurdod i baratoi a chyflwyno'r cynnig gofal plant yn gynnar ar draws ardal Dwyrain Canolbarth y Cymoedd o fis Medi 2017. Nododd yr Aelodau y bydd y cynllun ar gael i rieni sy'n gweithio yn yr ardal hon a darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar am hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer rhieni sy'n gweithio gyda phlant 3 a 4 oed. Rhagwelir y bydd cyllid ar gyfer y cynllun ar gael am sawl blwyddyn ac y gallai cam 2 gynnwys gweddill y Fwrdeistref, neu Fwrdeistrefi eraill ledled Cymru.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y dyraniad o gyllid ysgol a Grantiau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Esboniodd y swyddogion nad oedd Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol bellach, fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid yn seiliedig ar ddyraniad Prydau Ysgol am Ddim yn yr ysgol. Rôl y Pennaeth fyddai gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael i'r ysgolion a rôl y Corff Llywodraethol fyddai i herio'r dyraniad hwn, pe na baent yn fodlon bod anghenion y disgyblion a'r ysgol yn cael eu diwallu.

Trafododd yr Aelodau Grantiau a neilltuwyd drwy'r Corff Grant Ewropeaidd a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y goblygiadau ariannu o ganlyniad i Brexit. Sicrhaodd y Swyddogion yr Aelodau fod y cyllid wedi cael ei neilltuo gan Lywodraeth y DU a'i ddyrannu yn ôl drwy Fformiwla Barnett, felly ni fyddai unrhyw effaith o ganlyniad i Brexit.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 8.15 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2017 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD